**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**11 GORFFENNAF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau, 11 Gorffennaf 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Veronica Gay a Colin Legg.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Derek Butler a Richard Lloyd.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); a Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Cymunedau a Busnesau.

Ar gyfer cofnod rhif 13
Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth; Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio Gwastraff a Mwynau; Tom Woodall - Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol.

Ar gyfer cofnod rhif 16
Swyddog Polisi Priffyrdd.

**ARSYLWYR:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog y Pwyllgor.

## 13. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 14. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 ac 16 Mehefin 2017.

Cofnodion 16 Mehefin 2017

Cofnod rhif 7 - Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Goridor Glannau Dyfrdwy: Dywedodd y Cynghorydd David Evans, ar ôl iddo holi ynglŷn â'r llwybr gwyrdd, ei fod wedi cael gwybod nad oedd unrhyw fanylion gan mai llwybr amcanol a fwriedid fel dewis ar wahân i'r llwybrau coch a glas oedd hwn. Gofynnodd i hyn gael ei gynnwys yn y cofnodion.

Cofnod rhif 8 - Diweddariad ar Ddarparu Cynlluniau Parcio i Breswylwyr a Lleoedd i Bobl Anabl ar y Rhwydwaith Priffyrdd: Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Haydn Bateman, cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai'r newid a argymhellir ar gyfer y polisi, fel y nodir yn y penderfyniad, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i gael ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad i gofnod rhif 7, cymeradwyo'r ddwy set o gofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 15. PORTFFOLIO CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD

Gwahoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) bob un o reolwyr ei wasanaeth i'w cyflwyno eu hunain a rhoi crynodeb byr o'u meysydd gwaith nhw a'u hamcanion at y dyfodol.

Wrth ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Chris Dolphin ar geisiadau cynllunio ôl-syllol, eglurodd Rheolwr Datblygu'r dull a ddefnyddiwyd i ddatrys achosion o dorri rheolau cynllunio a'r oedi a ddeuai yn sgil hynny pan oedd materion mwy cymhleth ynghlwm. Yn dilyn pryderon y Cynghorydd Dolphin am benderfyniad blaenorol a wnaed yn Nyffryn Maes Glas, dywedodd y Prif Swyddog fod argymhellion yr adolygiad llywodraethu wedi'u derbyn ac y byddai Bwrdd Ymddiriedolwyr newydd yn cael ei sefydlu. Gofynnodd y Cynghorydd Joe Johnson ynglŷn â chyfleoedd i aelodau'r Cyngor fod wedi'u cynnwys ar y Bwrdd newydd ac fe ddywedwyd wrtho y byddai'r holl ymgeiswyr yn cael eu hasesu drwy'r un broses.

Diolchodd y Cynghorydd Vicky Perfect i Reolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol a'i dîm am eu cymorth gyda digwyddiad lleol diweddar.

## 16. CYNLLUN TEITHIO LLESOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yr adroddiad i amlinellu cefndir y cynigion ar y drafft o Fap Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol a manylion rhaglen yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rhoddodd Llywodraeth Cymru (LlC) ddyletswydd ar gynghorau i fodloni gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Yn rhan o'r rhwymedigaethau hyn, mae mapiau llwybrau teithio llesol presennol y Cyngor wedi'u cymeradwyo gan LlC o fewn y terfyn amser.

Dangosodd Swyddog Polisi Priffyrdd sut i fynd at ddogfennau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Map Rhwydwaith Integredig (MRhI) drwy'r ddolen ar wefan y Cyngor. Byddai'r MRhI yn cynnwys cynigion i wella'r isadeiledd ar gyfer cerddwyr a beicwyr i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau ar draws y sir yn ogystal â chynnig darpariaeth hamdden. Roedd y cynigion (yr oedd rhai ohonynt yn destun cytundebau pellach) wedi'u dangos ar chwe map o wahanol ardaloedd anheddol ynghyd â map trosolwg o'r sir. Roedd y wefan hefyd yn cynnwys manylion am sesiynau galw heibio'r ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd disgwyl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben ar 24 Medi 2017, pan fyddai'r holl ymatebion yn cael eu hystyried er mwyn

gallu cyflwyno'r MRhI terfynol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo erbyn 3 Tachwedd 2017.

Eglurodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y byddai teithio llesol yn ategu datblygiadau cynllunio a bod yr ardaloedd anheddol gwreiddiol a oedd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru wedi'u hehangu i ystyried 'pob llwybr sydd â phwrpas'.

Soniodd y Cynghorydd Cindy Hinds am annog rhieni i gerdded gyda'u plant i'r ysgol er mwyn caniatáu mwy o le parcio y tu allan i ysgol. Teimlai'r Cynghorydd Richard Lloyd, a oedd yn bresennol yn y galeri cyhoeddus, fod lled pafinau a gwrychoedd rhy fawr yn broblem mewn rhai ardaloedd. Cyfeiriodd Swyddog Polisi Priffyrdd at ddolen a e-bostiwyd yn ddiweddar at yr aelodau ynglŷn â gwaith roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i bartneriaid yn ei wneud mewn perthynas â hyn. Dywedodd fod rhai o'r cynigion yn cynnwys mapiau llwybrau presennol ac y gellid gwneud cynigion am gyllid ar gyfer cynlluniau diogelwch. Unwaith y byddai'r MRhI wedi'i gymeradwyo, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau eraill i fanteisio ar ffynonellau cyllid a oedd ar gael.

Mewn perthynas â diogelwch ffyrdd y tu allan i ysgolion, gofynnwyd i aelodau ddod â meysydd sy'n peri pryder at sylw swyddogion. Roedd y Cyngor wedi llwyddo i ddiogelu cyllid ar gyfer tri chynllun i ostwng nifer y ceir a oedd yn parcio y tu allan i'r ysgol ac roedd yn croesawu cyfleoedd i ehangu hyn i ardaloedd eraill. Cydnabu'r Cynghorwyr Chris Bithell a Paul Shotton gynnydd mewn perthynas ag ymgynghori ar gynlluniau arfaethedig yn eu wardiau nhw.

Eglurodd y Prif Swyddog fod LlC wedi darparu swm cyfyngedig o gyllid i gynghorau er mwyn bodloni gofynion teithio llesol. Roedd yn annog ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn cael cyllid grantiau i gwblhau'r cynlluniau.

Galwodd y Cynghorydd Owen Thomas am ladd gwair yn amlach ar hyd ffyrdd er mwyn i feicwyr allu gweld yn well ac i atal damweiniau. Dywedodd y Prif Swyddog fod adroddiad at y dyfodol wedi'i drefnu ar safonau lladd gwair a oedd heb eu newid ac roedd yn annog yr aelodau i roi gwybod am unrhyw ardaloedd penodol lle'r oedd pryder ynglŷn â diogelwch.

Rhoddodd y Cynghorwyr Owen Thomas a Haydn Bateman enghreifftiau o lwybrau a oedd yn cynnwys rheilffyrdd segur a oedd wedi'u harchwilio yn y gorffennol. Mewn perthynas â'r diwethaf, rhoddwyd eglurhad pam nad oedd y llwybr penodol hwn yn ymarferol gan fod angen caniatâd gan y perchnogion tir.

Cyfleodd y Cynghorydd Chris Dolphin ei siomedigaeth mewn perthynas â deilliannau teithio llesol a theimlai nad oedd rhai cynlluniau'n ymarferol o'r cychwyn cyntaf oni bai fod cyllid yn cael ei ddyrannu. Roedd hefyd yn teimlo bod angen lladd gwair yn amlach ar hyd ffyrdd gwledig er mwyn helpu beicwyr. Dywedodd Swyddog Polisi Priffyrdd fod yr holl gynlluniau wedi'u harchwilio a bod modd eu cwblhau pe ceid cyllid a phe gellid goresgyn materion perchnogaeth tir priodol a chytundebau/trwyddedau cyfreithiol, gan gynnwys Gorchmynion Traffig Ffyrdd llwyddiannus. Dywedodd y Prif Swyddog fod y cynigion yn cynnig rhai cynlluniau blaenoriaeth yn ogystal â rhai y byddai angen

eu datblygu dros y tymor hir. Roedd yn annog ymatebion i'r ymgynghoriad gan y byddai galw am gynlluniau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn llunio achos cryfach ar gyfer cynigion am gyllid. Pwysleisiodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) bwysigrwydd gweithio gyda'r Adran Gynllunio i wneud y gorau o gyfleoedd am gyllid o'r sector preifat.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Evans ar y dudalen fapio ryngweithiol, byddai Swyddog Polisi Priffyrdd yn gofyn i'r rhain gael eu tynnu oddi ar y wefan gan nad oeddent yn gyfredol.

Soniodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin am bartneriaethau gwaith a fyddai o fantais i Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy a Phorth y Gogledd. Pwysleisiodd bwysigrwydd teithio llesol mewn ardaloedd fel Shotton a Chei Connah a'r angen i'r DU fabwysiadu gwell isadeiledd ar gyfer beicwyr, fel sydd i'w weld yn Ewrop. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at gynigion mewn perthynas â Metro Gogledd-ddwyrain Cymru fel cludiant integredig sy'n cynnwys cydweithio rhwng cynghorau, LIC a busnesau lleol. Mewn perthynas â chysylltiadau â chludiant cymunedol, roedd diweddariad wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol ar gyflwyno prosiectau penodol.

Mewn ymateb i sylwadau, pwysleisiodd y Cynghorydd Carolyn Thomas benderfyniad y Cyngor i ehangu'r llwybrau y tu allan i'r ardaloedd anheddol gwreiddiol a dywedodd y byddai pob awgrym yn cael ei ystyried, gan gynnwys y rhai a grybwyllwyd ynghylch rheilffyrdd segur. O ran llad gwair, dywedodd y byddai'r polisi'n cael ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol, gan gynnwys goblygiadau cyllid. Wrth gyfeirio at y wybodaeth a ddosbarthwyd ynglŷn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gofynnodd i e-byst yn y dyfodol fod â nodyn briffio er mwyn tynnu sylw'r aelodau at y mater.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi rhaglen ddigwyddiadau'r ymgynghoriad; a

(b) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad arall ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

## 17. CYNLLUN GWASANAETH BWYD 2017/18

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) Gynllun Gwasanaeth Bwyd 2017-18 a oedd yn amlinellu'r nodau a'r amcanion ar gyfer y Gwasanaeth Bwyd dros y flwyddyn i ddod, gydag adolygiad o'i berfformiad yn 2016-17. Roedd gofyn i'r Cyngor lunio'r cynllun yn flynyddol ac fe geisiwyd barn cyn ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet a'i anfon ymlaen at yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cafodd yr aelodau wybod am sesiwn wybodaeth ar ddiogelwch bwyd a fyddai'n cael ei gosod yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.

Rhoddodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Cymunedau a Busnesau drosolwg o'r tîm diogelwch bwyd gan nodi'r cyflawniadau allweddol yn ei berfformiad yn 2016/17 yn ogystal â thargedau ar gyfer 2017/18.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Paul Shotton, eglurodd y Rheolwr y broses ar gyfer delio gydag eiddo a oedd wedi methu mewn archwiliadau. O ran pryderon ynglŷn â hel cocos heb drwydded, dywedodd fod gan y tîm gysylltiadau da â Heddlu Gogledd Cymru a thîm Troseddau a Thwyll yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Croesawodd y Cynghorydd Sean Bibby'r dull a gymerwyd i annog gwelliannau i sgoriau hylendid bwyd. Wrth holi am fesur perfformiad mewn perthynas â diogelwch bwyd, nodwyd bod Sir y Fflint yn y chwartel a oedd yn perfformio orau drwy Gymru.

Gofynnodd y Cynghorydd Owen Thomas ynglŷn â safonau ar gyfer sefydliadau bwyd symudol ac fe gafodd wybod am y sgôr risg wahanol a oedd yn berthnasol i sefydliadau a bennwyd yn rhai risg uwch gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mewn perthynas â safleoedd a oedd yn ennill sgôr hylendid o 3, cydnabuwyd bod y sefydliadau hynny wedi bodloni rhai o'r elfennau a oedd yn rhan o'r asesiad trylwyr.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Haydn Bateman, darparodd y Rheolwr eglurhad ar waith ar sefydliadau bwyd. Gellid rhannu mwy o fanylion yn y sesiwn wybodaeth ar ddiogelwch bwyd.

Canmolodd y Cynghorydd Chris Bithell ganfyddiadau'r adroddiad, a oedd yn adlewyrchu gwaith pwysig y tîm wrth hyrwyddo safonau diogelwch a hylendid. Dywedodd y byddai gwaith yn parhau i wneud cynnydd ar y cyflawniadau hynny yn 2017/18. Aeth yn ei flaen i groesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i arddangos sgoriau hylendid bwyd.

Mewn perthynas â chydweithio gyda chynghorau eraill, awgrymodd y Cynghorydd David Evans fod posib' i Sir y Fflint gymryd rôl arweiniol â gwasanaethau i greu incwm. Dywedodd y Rheolwr y gallai hwn fod yn bwnc i'w ystyried yn y dyfodol ond y byddai'n gofyn am fuddsoddiadau i ddatblygu'r gwasanaeth a chynyddu'r gallu i gyflawni gwaith. Aeth yn ei blaen i roi enghreifftiau o waith rhanbarthol cyfredol.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2017-18.

**18. ADRODDIAD CANLYNIADAU CYNLLUN GWELLA 2016/17**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) yr adroddiad diweddaru arferol i ystyried cynnydd tuag at gyflawni'r effeithiau a nodwyd yng Nghynllun Gwella 2016/17, gan ganolbwyntio ar danberfformio sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd yr unig faes risg mawr ar leihau llifogydd o ganlyniad i ddiffyg cyllid cenedlaethol i gefnogi cynlluniau. Rhoddwyd diweddariad cryno ar y cynllun yn yr Wyddgrug a oedd yn cael ei rannu'n bedwar rhan i helpu gyda cheisiadau am gyllid.

Eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod yr unig ddangosydd perfformiad coch o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y rhai sy’n mynd ar gwrs Pass Plus Cymru ar gyfer gyrwyr ifanc sydd newydd basio. Mewn perthynas â chamau a gymerwyd i gyflawni canlyniadau, adroddodd ynglŷn â chynnydd ar drefniadau cludiant cymunedol yn Kinnerton, gyda phedwar arall i’w cyflwyno dros yr haf.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Paul Shotton ar leihau nifer troseddau amgylcheddol a’u heffaith, cytunwyd y byddai dadansoddiad o’r 3,900 o rybuddion cosb benodedig a roddwyd yn cael ei rannu â’r Pwyllgor. Dywedodd y Prif Swyddog fod y rhan fwyaf am droseddau gollwng sbwriel ac roedd tua 90 yn ymwneud â baw cŵn. Pwysleisiodd yr heriau o ran gorfodi mewn perthynas â baw cŵn ac fe atgoffodd yr aelodau bod y contract cyfredol gyda'r cwmni gorfodi'n sicrhau dull rhagweithiol o fonitro ardaloedd ehangach ac y byddai’n cael ei adolygu gan y Pwyllgor cyn diwedd y cyfnod treialu.

Wrth groesawu'r ymgysylltiad hwn gyda'r aelodau, dywedodd y Cynghorydd Bibby fod nifer o gwynion wedi’u derbyn yn dweud bod y cwmni gorfodi’n canolbwyntio ar droseddau sbwriel gan fod y rhain yn dargedau haws. Gwnaeth y Cynghorydd Joe Johnson bwynt tebyg ar gael gwared â bonion sigaréts. Dechreuodd hyn drafodaeth ar yr angen am ddarparu mwy o finiau aml-ddefnydd mewn safleoedd bysiau ac y dylid eu gwagu'n rheolaidd.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog bwysigrwydd adrodd tystiolaeth ynglŷn â mannau problemus o ran baw cŵn ac fe ddywedodd fod yr effaith gadarnhaol o orfodaeth ar ollwng sbwriel yng nghanol trefi'n amlwg. Gwnaeth y Cynghorydd Cindy Hinds sylw ar yr angen am fwy o heddweision yng nghanol trefi.

Nododd y Cadeirydd mai baw cŵn a thipio anghyfreithlon oedd y ddwy brif gwyn amgylcheddol a gofynnodd i ddiweddariad ar faw cŵn gael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol. Gofynnodd ynglŷn â lleoliadau’r rhybuddion cosb benodedig a roddwyd am faw cŵn ac fe gytunodd y Prif Swyddog i gynnwys hyn yn y wybodaeth ddadansoddol, ond fe atgoffodd yr aelodau eu bod yn gallu cysylltu â Ruth Cartwright os oeddent yn dymuno gweld manylion y rhaglen waith orfodi ar gyfer eu hardal nhw.

Gwnaeth y Cynghorydd Owen Thomas sylw ynglŷn ag amseriad achosion o dipio'n anghyfreithlon yn ei ward ef ac fe'i hanogwyd i roi gwybod am unrhyw wybodaeth. Soniodd eto am yr awgrym blaenorol ynglŷn â stampio rhifau cofrestru ceir ar becynnau bwyd brys i leihau'r math hwn o achosion o daflu sbwriel. Ymatebodd y Prif Swyddog fod sylwadau wedi’u hanfon at y cwmnïau a oedd ynghlwm, ond yn ofer.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Haydn Bateman at enghreifftiau penodol o Rybuddion Cosb Benodedig a gyflwynwyd am ollwng sbwriel ac fe gafodd wybod bod rhai achosion wedi’u gwrthdroi drwy ddefnyddio fideo teledu cylch caeedig, er nad oedd proses apelio ar hyn o bryd. Dywedodd y Prif Swyddog y dylid bod â dull apelio yn y contract newydd ac fe gafwyd sicrwydd bod

swyddogion gorfodi'n cael eu hannog i fod yn gyson wrth gyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig ond fe atgoffodd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi cytuno ar ddull dim goddefgarwch mewn perthynas â gollwng sbwriel.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 19. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Raglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried ac fe awgrymodd y newidiadau canlynol:

- Ychwanegu Cynllun y Cyngor at yr eitemau ar gyfer mis Medi 2017.
- Ychwanegu amddiffynfeydd llifogydd at yr eitemau ar gyfer mis Hydref 2017.
- Ychwanegu diweddariad ar Ddyffryn Maes Glas i'r eitemau ar gyfer mis Rhagfyr 2017 ynghyd â'r Polisi Lladd Gwair a sesiwn wybodaeth ar ddiogelwch bwyd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 20. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.10pm)

………………………….
**Cadeirydd**